**PWYLLGOR NEWID HINSAWDD**
**6 MEDI 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Newid Hinsawdd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod o bell ddydd Gwener, 6 Medi 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Alasdair Ibbotson (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Mike Allport, Mel Buckley, Geoff Collett, Steve Copple, Bill Crease, Ron Davies, Mared Eastwood, Ian Hodge, Simon Jones, Fran Lister ac Allan Marshall |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Roedd y Cynghorydd Roz Mansell yn bresennol fel arsylwr. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd David Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi), Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon, Dominic Scott - Arbenigwr Polisi a Strategaeth Draenio o Dŵr Cymru (ar gyfer eitem 12), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd. |

## 11. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 12. YMCHWILIAD CYHOEDDUS I LIFOGYDD - CLYWED TYSTIOLAETH AR LAFAR GAN DŴR CYMRU(Dolen i'r recordiad)

Yn dilyn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor, roedd Dominic Scott o Dŵr Cymru yn bresennol i ymateb i gwestiynau a godwyd gan Aelodau. Cytunodd edrych ar faterion penodol a godwyd gan y Cynghorwyr Geoff Collett, Fran Lister/Ron Davies, David Healey a Roz Mansell a byddai'n ymateb yn unol â hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Scott am fynychu a dywedodd y byddai copi o'r adroddiad yn ymwneud â'r Ymchwiliad yn cael ei rannu. Dywedodd Mr. Scott bod modd i Aelodau'r Pwyllgor anfon e-bost yn uniongyrchol ato gydag unrhyw faterion pellach yn hyn o beth.

## 13. COFNODION

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2024 yn gofnod cywir.

## 14. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad ar gynnydd y camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol a nododd fod y drydedd eitem o gyfarfod mis Mawrth wedi dod i ben.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

## 15. ADOLYGU'R CYLCH GORCHWYL (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon adroddiad ar y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru.

Eglurwyd y byddai angen cyflwyno'r Cylch Gorchwyl i'r Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd cyn ceisio cymeradwyaeth gan y Cyngor llawn i'w fabwysiadu'n ffurfiol.

Cytunodd y Cynghorydd Allan Marshall anfon e-bost at y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ynghylch materion fformatio yn y Cyfansoddiad a byddai'n cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn yr e-bost.

Yn dilyn trafodaeth, cynigodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd David Healey amcanion sylfaenol ychwanegol ar gyfer y Cylch Gorchwyl. Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Newid Hinsawdd, gyda'r awgrym i ymgorffori'r amcanion sylfaenol ychwanegol a ganlyn:

- Gweithio i sicrhau cyd-gyfrifoldeb ar draws portffolios ar gyfer newid hinsawdd, gan gynnwys cynghori a chynorthwyo pwyllgorau eraill ar draws y Cyngor.
- Ymgymryd â gwaith i liniaru effaith newid hinsawdd ar drigolion, y Cyngor a busnesau.

## 16. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH NEWID HINSAWDD (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglen - Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon adroddiad ar statws presennol cynlluniau gweithredu'r rhaglen gan gynnwys meysydd risg.

Cefnogwyd yr argymhelliad, gan gydnabod pryderon ynghylch mynediad at gyllid i gefnogi gweithgareddau parhaus.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnydd cyfredol Cynlluniau Gweithredu'r Strategaeth Newid Hinsawdd, meysydd risg / agored i niwed a chamau gweithredu i liniaru'r risgiau hyn.

**17.** **RISG HINSAWDD - GWRES EITHAFOL** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Cynghorydd David Healey, Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi, adroddiad ar effeithiau gwres eithafol a gofynnodd am gymeradwyaeth i argymhelliad i sicrhau ystyriaeth briodol o'r effeithiau hynny o fewn cynlluniau risg hinsawdd ac addasu lleol a rhanbarthol.

Cytunodd y Rheolwr Rhaglen - Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon i gyflwyno pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau:

- Cyfathrebu â rhieni ar fesurau lliniaru i leihau effaith gwres eithafol ar ddysgwyr mewn ysgolion.
- Awgrym i greu gwaharddiad ar gynnau tân mewn ardaloedd gwledig yn ystod tywydd sych.
- Addysgu'r cyhoedd am ddatrysiadau effeithiol i fynd i'r afael â gwres eithafol mewn cartrefi heb ddefnyddio systemau aerdymheru.
- Ystyried mesurau lleihau gwres wrth adeiladu cartrefi newydd.
- Y posibilrwydd o ddefnyddio canolfannau cymunedol fel canolfannau oeri ar gyfer yr henoed a phobl sy'n agored i niwed yn ystod tywydd eithriadol o boeth.

Cafodd yr argymhellion eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith i nodi risgiau penodol o effaith gwres eithafol ar y cyhoedd ac ar wasanaethau, yn lleol ac yn rhanbarthol; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi datblygu cynllun gweithredu i liniaru effaith y risgiau a nodwyd, yn lleol ac yn rhanbarthol.

**18.** **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YMCHWILIADAU Dolen i'r recordiad**

Fel yr awgrymwyd gan y Cadeirydd, cytunwyd y byddai Aelodau a oedd wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor yn ystod yr Ymchwiliadau i Lifogydd yn cael eu gwahodd i ymuno â'r Pwyllgor mewn cyfarfod anffurfiol i drafod y dystiolaeth a dderbyniwyd, cyn paratoi adroddiad ffurfiol.

Byddai dyddiad ar gyfer gwrando ar dystiolaeth lafar ar gyfer yr Ymchwiliad Pensiynau yn cael ei drefnu.

**19.** **EITEMAU A DIBENION Y RHAGLEN WAITH** **(Dolen i'r recordiad)**

Derbyniodd y Pwyllgor y Rhaglen Waith bresennol i'w hystyried a chytunwyd ar y canlynol:

- Cyfarfod mis Tachwedd - Y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau cerbydau fflyd a chynlluniau trosglwyddo cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV).

- Cyfarfod mis Ionawr - Strategaeth Parcio Ceir ac astudiaeth dichonoldeb ar gyfer gosod toeau solar dros feysydd parcio.
- Cyfarfod mis Tachwedd - ôl troed carbon y Cyngor.
- I'w drefnu - Cyfleoedd cynhyrchu gwres gweithfeydd mwyngloddio yn Sir y Fflint a mwyngloddio plwm yn nhwnnel Milwr.

Atgoffodd y Cadeirydd bod disgwyl i Aelodau'r Cabinet fod yn bresennol i ateb cwestiynau ar adroddiadau yn ymwneud â'u meysydd portffolio.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cytuno ar y Rhaglen Waith.

**20. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.10pm)

……………………………………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy fynd i'r llyfrgell weddarllediadau yn: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home